



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Amcanion Cydraddoldeb 2016–2020



Gwneud Cymru'n genedl decach

Mawrth 2016

Rhagair y Gweinidog

Mae cydraddoldeb a chynhwysiant wastad wedi bod wrth galon Llywodraeth Cymru ac mae ein Dyletswyddau Cydraddoldeb Penodol wedi darparu'r momentwm ar gyfer hybu cydraddoldeb a chynhwysiant ymhellach.

Mae'n bedair blynedd ers i'n Cynllun Cydraddoldeb ac Amcanion Cydraddoldeb Strategol cyntaf gael eu cyhoeddi, dan y dyletswyddau hyn, i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb sy'n bod ers tro, sydd wedi ymwreiddio ac sy'n aml yn pontio'r cenedlaethau.

Rwy'n falch ein bod, dros y pedair blynedd ddiwethaf, wedi gweld rhai ffyrdd gwirioneddol arloesol a blaengar o fynd i'r afael ag anghydraddoldebau trwy ein polisïau, ein ffrydiau ariannu a'n deddfwriaeth.

O dan ein Dyletswyddau Cydraddoldeb Penodol, mae'n ofynnol inni adolygu a diweddarau ein Hamcanion Cydraddoldeb bob pedair blynedd, er mwyn sicrhau ein bod yn dal i fynd i'r afael â'r meysydd lle ceir yr anghydraddoldebau mwyaf.

Er mwyn gwneud hyn, fe ymgysyllton ni'n eang â rhanddeiliaid a sefydliadau yn y Sector Cyhoeddus a'r Trydydd Sector i gasglu barn a thystiolaeth ar y meysydd anghydraddoldeb sy'n flaenoriaeth ar hyn o bryd i grwpiau gwarchoddedig.

Roedd adborth o'n gwaith ymgynghori ac ymgysylltu'n dangos cefnogaeth gref i gadw cynnwys ein Hamcanion Cydraddoldeb presennol gan eu bod yn mynd i'r afael â heriau hirdymor sy'n pontio'r cenedlaethau ac y bydd yn cymryd amser i'w datrys yn llawn.

Yn seiliedig ar yr adborth hwn a'r dystiolaeth werthfawr yn Adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, A Yw Cymru'n Decach?, fe ddatblygon ni ein hwyth Amcan Cydraddoldeb newydd.

Mae mwyafrif yr Amcanion diwygiedig yn mireinio cynnwys yr Amcanion presennol a byddant yn cynnal momentwm ac yn adeiladu ar ein cynnydd.

Rydym hefyd wedi cyflwyno dau Amcan Cydraddoldeb newydd. Bydd ein gwaith ar gydlyniant cymunedol yn cael ei osod dan ymbarél yr Amcanion Cydraddoldeb o hyn ymlaen, sy'n adlewyrchu pwysigrwydd cynorthwyo cymunedau i fod yn gydlynus, yn gryf ac yn gefnogol i'w haelodau.

Er bod cyswllt cryf rhwng yr holl Amcanion ac anfantais economaidd-gymdeithasol, bellach mae gennym Amcan newydd a fydd yn canolbwyntio'n benodol ar drechu tlodi ac anghydraddoldeb sy'n seiliedig ar nodweddion gwarchoddedig.

Credaf y bydd ein Hamcanion Cydraddoldeb ar gyfer y pedair blynedd nesaf yn mynd i'r afael â'r heriau allweddol o ran cydraddoldeb sydd o'r pwys mwyaf i bobl Cymru, y byddant yn ein helpu i gyrraedd y Nodau Llesiant ac y byddant yn parhau i ddangos ein hymrwymiad traws-Lywodraethol i drechu anghydraddoldeb.

Bydd y ffocws strategol a hirdymor hwn ar drechu anghydraddoldeb yn sicrhau ein bod yn parhau i gymryd camau sylweddol tuag at ein gweledigaeth ar gyfer Cymru decach yn 2016-2020.



Lesley Griffiths AC

Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi

Cynnwys

Cyflwyniad	3
Amcanion Cydraddoldeb 2016-2020	6
Amcan 1	8
Amcan 2	9
Amcan 3	10
Amcan 4	11
Amcan 5	12
Amcan 6	13
Amcan 7	14
Amcan 8	15

Cyflwyniad

Fe greodd Deddf Cydraddoldeb 2010 Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Yn gwyno mae'n gosod dyletswydd ar gyfrif cyhoeddus i wneud y canlynol:

- Dileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth;
- Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a'r rhai nad ydynt yn ei rhannu;
- Meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a'r rhai nad ydynt yn ei rhannu.

Llywodraeth Cymru oedd y llywodraeth gyntaf ym Mhrydain i wneud rheoliadau i greu dyletswyddau penodol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Gosododd y dyletswyddau cydraddoldeb penodol hyn sylfaen bellach ar gyfer hybu cydraddoldeb yng Nghymru. O dan y dyletswyddau fe gyhoeddodd ni ein Hamcanion Cydraddoldeb cyntaf ar gyfer cyfnod o bedair blynedd ym mis Ebrill 2012 ac rydym wedi adolygu a diweddarau ein Hamcanion Cydraddoldeb ar gyfer 2016-20.

Diben yr Amcanion Cydraddoldeb yw cryfhau'r modd y mae Llywodraeth Cymru yn cyflawni dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus a sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn gwneud cynnydd o un flwyddyn i'r llall o ran hybu cydraddoldeb a chynhwysiant i'r holl grwpiau gwarchoddedig. Mae'r Amcanion Cydraddoldeb hefyd yn hysbysu ein rhanddeiliaid a'r cyhoedd ynghylch y meysydd o ran anghydraddoldeb y mae Llywodraeth Cymru yn eu blaenoriaethu fel meysydd i weithredu ynddynt.

Bydd yr Amcanion newydd yn adeiladu ar y gwaith yr ydym eisoes wedi'i wneud dros y pedair blynedd ddiwethaf ac yn ein helpu i barhau i brif-ffrydio cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ein holl waith, gan fynd i'r afael â'r meysydd o ran anghydraddoldeb sydd o'r pwys mwyaf i bobl Cymru. Mae hyn yn cynnwys ystyried sut yr ydym yn gwneud pethau'n fewnol yn Llywodraeth Cymru yn ein rôl fel cyflogwr.

Mae'r Amcanion Cydraddoldeb wedi cael eu datblygu yn dilyn ymgysylltu ac ymgynghori trylwyr â grwpiau gwarchoddedig ledled Cymru. Rhoddodd y gwaith ymgysylltu gyfle i randdeiliaid ddylanwadu ar yr Amcanion Cydraddoldeb a'r ffordd y cawsant eu drafftio.

Roedd adborth o'n gwaith ymgynghori'n dynodi y dylai fod cyswllt clir rhwng yr Amcanion Cydraddoldeb a'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Cafodd yr ymatebion o'r gwaith ymgynghori ac ymgysylltu eu hategu gan adroddiad a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, 'A Yw Cymru'n Decach?'¹ Roedd yr adroddiad, a oedd yn seiliedig ar ymchwil a thystiolaeth eglur, yn darparu manylion am faint y cynnydd o ran cydraddoldeb a hawliau dynol dros y cyfnod o 2010-2015.

Yn seiliedig ar y gwaith ymgysylltu a'r dystiolaeth fe ddatblygon ni wyth Amcan Cydraddoldeb ar gyfer 2016-2020, sef chwe Amcan wedi'u diweddarau a dau Amcan newydd. Byddwn yn cyhoeddi

¹ Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (2015), A Yw Cymru'n Decach? Cyflwr cydraddoldeb a hawliau dynol 2015. Ar gael trwy www.equalityhumanrights.com/cy/publication/yw-cymrun-decach

ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-20, ynghyd â'r camau gweithredu y byddwn yn eu cymryd i gyflawni'r Amcanion Cydraddoldeb, yn ddiweddarach yn 2016.

Mae'r Amcanion Cydraddoldeb wedi'u bwriadu i fynd i'r afael â'r heriau allweddol o ran cydraddoldeb yr ydym yn eu hwynebu yng Nghymru, y mae llawer ohonynt yn bod ers tro ac yn pontio'r cenedlaethau. Bydd gwneud cynnydd gyda'r Amcanion Cydraddoldeb yn cyfrannu at gyrraedd y Nodau Llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol hefyd. Mae a wnelo'r Ddeddf â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, ac mae'n rhoi cyfle inni hybu cydraddoldeb mewn ffordd fwy integredig a strategol. Ceir mwy o wybodaeth yn: www.gov.wales/topics/people-and-communities/people/future-generations-bill

Caiff darpariaeth ar gyfer Cymru decach ei gwneud yn y Ddeddf trwy Nod Llesiant penodol, 'Cymru sy'n fwy cyfartal' sy'n cynnwys cyfeiriad at anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol. Bydd yr Amcanion Cydraddoldeb yn cyfrannu at gyrraedd yr holl Nodau Llesiant hefyd, gan gynnwys 'Cymru o gymunedau cydlynus' a ddangosir gan ein gwaith ar drechu troseddau casineb a chryfhau cydlyniant cymunedol; 'Cymru lewyrchus' trwy gau'r bylchau mewn cyrhaeddiad addysgol a lleihau nifer y bobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant; 'Cymru iachach' trwy fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd; a'r nod i greu 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu' trwy annog pobl o grwpiau gwarchoddedig i gyfranogi mewn gweithgareddau diwylliannol a hamdden.



Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i gyrrff cyhoeddus adlewyrchu amrywiaeth y boblogaeth wrth gymhwyso'r egwyddor Datblygu Cynaliadwy. Mae'r egwyddor yn cynnwys pum ffordd o weithio. Mae'n rhaid inni:

- feddwl am y **tymor hir** fel nad ydym yn peryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau;
- **gweithredu mewn ffordd integredig** fel bod cyrff cyhoeddus yn ystyried yr holl nodau llesiant wrth benderfynu ar eu blaenoriaethau;
- **cynnwys** personau sy'n adlewyrchu amrywiaeth y boblogaeth wrth wneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt;
- gweithio gydag eraill mewn ffordd **gydweithredol** i ddod o hyd i atebion cynaliadwy cyffredin;
- deall achosion sylfaenol problemau i'w **hatal** rhag digwydd ac ystyried a ddylid newid y modd yr ydym yn rhoi ein hadnoddau ar waith ar hyn o bryd.

Bydd y pum ffordd yma o weithio'n arwain ein gwaith o ran datblygu ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'r camau gweithredu a fydd yn cyflawni ein Hamcanion Cydraddoldeb.

Rydym yn ddiolchgar iawn i bawb a gyfrannodd at ddatblygu Amcanion Cydraddoldeb Llywodraeth Cymru. Fe wnaeth unigolion a gyfranogodd yn y grwpiau ffocws a'r gweithdai ac a ymatebodd i'n hymgyngghoriad; ein partneriaid a sefydliadau rhanddeiliaid a fydd yn gweithio gyda ni i gyflawni; a staff o Lywodraeth Cymru i gyd ddarparu gwybodaeth werthfawr ar ffurf adborth, tystiolaeth a chadarnhad o'r anghydraddoldebau yr ydym yn gweithio i fynd i'r afael â hwy. Heb eich ymgysylltiad chi ni fyddem wedi gallu datblygu'r Amcanion Cydraddoldeb hyn, a fydd yn parhau i wneud gwahaniaeth go iawn i fywydau pobl yng Nghymru.

Amcanion Cydraddoldeb 2016-2020

Amcan 1

- Gwneud anghenion, hawliau a chyfraniadau pobl â nodweddion gwarchoddedig yn ganolog i'r broses o ddylunio a darparu'r holl wasanaethau cyhoeddus, yn enwedig gwasanaethau iechyd ac iechyd meddwl, addysg, tai, gwasanaethau cymdeithasol a chludiant. Yn benodol, sicrhau cymorth a mynd i'r afael â rhwystrau i alluogi pobl anabl i fwynhau eu hawl i fyw'n annibynnol a bod â llais, dewis a rheolaeth yn eu bywydau.

Amcan 2

- Sicrhau darpariaeth ddigonol o ran gwasanaethau cyngor, gwybodaeth ac eirioli hygyrch, o ansawdd uchel i alluogi pobl â nodweddion gwarchoddedig i ddeall ac arfer eu hawliau a gwneud dewisiadau gwybodus.

Amcan 3

- Adnabod a lleihau ffactorau sy'n achosi anghydraddoldebau o ran cyflogaeth, sgiliau a chyflog sy'n gysylltiedig â'r rhywiau, ethnigrwydd, oedran ac anabledd gan gynnwys cau'r bylchau cyrhaeddiad mewn addysg a lleihau nifer y bobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET).

Amcan 4

- Lleihau nifer yr achosion o bob math o aflonyddu a cham-drin, gan gynnwys (ond nid dim ond) trais yn erbyn menywod, trais casineb, bwlio, cam-drin plant, cam-drin domestig, a cham-drin pobl hŷn.

Amcan 5

- Cyflawni cronfa fwy amrywiol o benderfynwyr mewn bywyd cyhoeddus a phenodiadau cyhoeddus trwy adnabod rhwystrau i ymgysylltiad a chyfranogiad ar gyfer pobl o gefndiroedd amrywiol a mynd i'r afael â'r rhwystrau hynny.

Amcan 6

- Cryfhau cydlyniant cymunedol trwy feithrin perthnasoedd da, cynhwysiant, parch a dealltwriaeth o fewn a rhwng cymunedau ledled Cymru.

Amcan 7

- Lleihau tlodi, lliniaru effeithiau tlodi a gwella amodau byw ar gyfer y grwpiau hynny sydd fwyaf mewn perygl o fyw mewn aelwydydd ar incwm isel, yn enwedig pobl anabl, rhieni sengl, rhai grwpiau ethnig lleiafrifol penodol, a theuluoedd â phlant anabl.

Amcan 8 – Amcan mewnol ar gyfer Adnoddau Dynol yn Llywodraeth Cymru

- Bydd Llywodraeth Cymru yn anelu at fod yn enghraifft batrymol yn yr agenda Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant erbyn 2020.

Amcan 1

Gwneud anghenion, hawliau a chyfraniadau pobl â nodweddion gwarchoddedig yn ganolog i'r broses o ddylunio a darparu'r holl wasanaethau cyhoeddus, yn enwedig gwasanaethau iechyd ac iechyd meddwl, addysg, tai, gwasanaethau cymdeithasol a chludiant. Yn benodol, sicrhau cymorth a mynd i'r afael â rhwystrau i alluogi pobl anabl i fwynhau eu hawl i fyw'n annibynnol a bod â llais, dewis a rheolaeth yn eu bywydau.

Rhesymeg

Mae'r Amcan hwn yn cyfuno dau o Amcanion blaenorol Llywodraeth Cymru ar fyw'n annibynnol, a darparu gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r Amcan newydd yn cynnwys yr holl grwpiau gwarchoddedig gan ddal i gydnabod anghenion a hawliau penodol pobl anabl.

Yn dilyn adborth o'n hymgyngoriad, mae'r Amcan bellach yn cynnwys ffocws cryfach ar hawliau ac mae hefyd yn cynnwys yn benodol y rhai â phroblemau iechyd meddwl. Mae'r Amcan wedi cael ei ehangu hefyd i gynnwys addysg a chludiant fel gwasanaethau cyhoeddus allweddol.

Adroddiad A Yw Cymru'n Decach?

Mae'r Amcan hwn yn cysylltu'n gryf â her y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i wella mynediad at wasanaethau iechyd meddwl. Mae'r Amcan hefyd yn cysylltu â gwella mynediad at ofal ar gyfer pobl hŷn ochr yn ochr â gweithredu i atal plant a phobl hŷn rhag cael eu camdrin, eu hesgeuluso neu brofi camdriniaeth mewn ysbytai a chartrefi gofal.

Amcan 2

Sicrhau darpariaeth ddigonol o ran gwasanaethau cyngor, gwybodaeth ac eirioli hygyrch, o ansawdd uchel i alluogi pobl â nodweddion gwarchoddedig i ddeall ac arfer eu hawliau a gwneud dewisiadau gwybodus.

Rhesymeg

Gall cyngor priodol ac amserol wneud gwahaniaeth mawr i'r defnyddiwr gwasanaethau, gan helpu i gynyddu gwydnwch pobl i wneud eu penderfyniadau gwybodus eu hunain a gwella'u llesiant yn sylweddol.

Roedd cefnogaeth gref i barhau i flaenoriaethu'r Amcan hwn, yn enwedig yng ngoleuni toriadau pellach mewn gwariant a newidiadau i systemau lles a chymorth cyfreithiol y DU. Roedd dadansoddiad Llywodraeth Cymru² yn awgrymu bod menywod, pobl anabl, pobl iau a grwpiau ethnig lleiafrifol yn fwy tebygol o brofi effeithiau toriadau Llywodraeth y DU ac mai hwy fyddai'n colli'r mwyaf o incwm. Hefyd, gallai diwygiadau i gymorth cyfreithiol sifil a diwygiadau eraill sy'n effeithio ar fynediad at gyfiawnder achosi bygythiad i gydraddoldeb mewn perthynas ag amddiffyn a rhoi cymorth.

Bydd ffocws yr Amcan hwn yn awr ar sicrhau bod gwasanaethau cynghori'n cael eu hyrwyddo i gynyddu ymwybyddiaeth o'u bodolaeth yn ogystal â gwella mynediad at wybodaeth a chyngor sy'n bodoli ar hyn o bryd yn hytrach na chynyddu swm a sylwedd yr wybodaeth sydd ar gael. Bydd hyn yn galluogi pobl â nodweddion gwarchoddedig i wybod beth yw eu hawliau a pha gymorth sydd ar gael iddynt. Bydd yr Amcan hefyd yn canolbwyntio ar roi cymorth i gydgyssylltu gwasanaethau cynghori gan sicrhau rhwydwaith mwy effeithiol o gyngor a gwybodaeth rhwng darparwyr.

Adroddiad A Yw Cymru'n Decach?

Mae'r Amcan hwn yn cysylltu â her y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i gynyddu mynediad at gyfiawnder. Er bod cymorth cyfreithiol yn faes sydd heb ei ddatganoli, bydd yr Amcan yn mynd i'r afael â'r her hon trwy wella hygyrchedd gwasanaethau cynghori a gwybodaeth ac ymwybyddiaeth ohonynt.

² Llywodraeth Cymru (2013) Dadansoddi effaith diwygiadau lles Llywodraeth y DU yng Nghymru – Dadansoddiad Cam 3, Rhan 1: Effeithiau ar y rhai â nodweddion gwarchoddedig. Ar gael trwy www.gov.wales/docs/dsjlg/report/130717wr-stage3-analysisv2-en.pdf (Saesneg yn unig)

Amcan 3

Adnabod a lleihau ffactorau sy'n achosi anghydraddoldebau o ran cyflogaeth, sgiliau a chyflog sy'n gysylltiedig â'r rhywiau, ethnigrwydd, oedran ac anabledd gan gynnwys cau'r bylchau cyrhaeddiad mewn addysg a lleihau nifer y bobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET).

Rhesymeg

Mae'r Amcan newydd yn cyfuno dau o Amcanion blaenorol Llywodraeth Cymru ar wahaniaethau o ran cyflog a chyflogaeth; a mynd i'r afael â nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ddefnyddio dull trawsbynciol o fynd i'r afael â'r lluo o ffactorau sy'n gysylltiedig ag anghydraddoldebau o ran cyflogaeth, sgiliau a chyflog. Mae hyn yn cynnwys rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn, darparu addysg o ansawdd, herio stereoteipiau o ran y rhywiau, annog pobl â nodweddion gwarchoddedig i ymgymryd â rolau lle maent yn cael eu tangynrychioli a lleihau nifer y bobl sy'n cael eu cyfrif yn rhai nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, sy'n flaenoriaeth allweddol o ran cyfiawnder cymdeithasol i Lywodraeth Cymru.

Adroddiad A Yw Cymru'n Decach?

Mae'r Amcan hwn yn adlewyrchu nifer o'r heriau manwl a nodwyd yn 'A Yw Cymru'n Decach?'.

Mae'r rhain yn cynnwys cau'r bylchau cyrhaeddiad trwy godi safonau plant sy'n cael Prydau Ysgol Am Ddim, plant ag Anghenion Addysgol Arbennig (AAA), plant sy'n derbyn gofal a phlant Sipsiwn a Theithwyr. Gall gwahardd plant o'r ysgol effeithio ar eu cyrhaeddiad hefyd, yn enwedig yn achos bechgyn, rhai grwpiau ethnig lleiafrifol a disgyblion ag Anghenion Addysgol Arbennig (AAA).

Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol hefyd wedi gosod her sy'n golygu rhoi anogaeth ar gyfer recriwtio, datblygu a gwobrwyo teg ym maes cyflogaeth. Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol wedi tynnu sylw at yr angen i gynyddu cyfraddau cyflogaeth pobl ifanc, pobl anabl, pobl o leiafrifoedd ethnig a Moslemiaid; a chau'r bylchau cyflog ar gyfer pobl ifanc, pobl o leiafrifoedd ethnig a menywod.

Amcan 4

Lleihau nifer yr achosion o bob math o aflonyddu a cham-drin, gan gynnwys (ond nid dim ond) trais yn erbyn menywod, trais casineb, bwlio, cam-drin plant, cam-drin domestig, a cham-drin pobl hŷn.

Rhesymeg

Ni ddylai unrhyw un orfod byw ei fywyd gan ofni trais, cael ei gam-drin neu ei erlid. Dros y pedair blynedd ddiwethaf, mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud peth cynnydd gyda'r Amcan hwn trwy Mynd i'r Afael â Throseddau a Digwyddiadau Casineb: Fframwaith Gweithredu a chyflwyno Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gynnal y ffocws i sicrhau bod yr arfer gorau a sefydlwyd eisoes dros y 4 blynedd diwethaf yn ymwreiddio, gan fod hyn yn rhywbeth a oedd yn amlwg iawn yn yr adborth o'n gwaith ymgysylltu ac ymgynghori.

Mae'r Amcan newydd wedi cael ei aralleirio i sicrhau ei fod yn cynnwys yr holl grwpiau â nodweddion gwarchoddedig. Bydd yr amcan hwn yn cynnwys ffocws mwy ar gynyddu cyfraddau hysbysu a gweithgarwch atal hefyd.

Adroddiad A Yw Cymru'n Decach?

Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol wedi gosod her allweddol sy'n gysylltiedig â'r Amcan hwn: dileu'r achosion o drais, cam-drin ac aflonyddu yn enwedig yn erbyn menywod, pobl anabl, pobl o leiafrifoedd ethnig, Moslemiaid a phobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol.

Canfu eu hadroddiad na fu gostyngiad ar y cyfan yn y trais, y cam-drin, a'r aflonyddu a brofir gan rai pobl, ond bod cynnydd wedi bod yn nifer y digwyddiadau yr hysbysir yr heddlu yn eu cylch ac mewn cyfraddau euogfarnu.

Amcan 5

Cyflawni cronfa fwy amrywiol o benderfynwyr mewn bywyd cyhoeddus a phenodiadau cyhoeddus trwy adnabod rhwystrau i ymgysylltiad a chyfranogiad ar gyfer pobl o gefndiroedd amrywiol a mynd i'r afael â'r rhwystrau hynny.

Rhesymeg

Pan fo pobl o bob cefndir yn cael eu cynrychioli ar fyrddau cyhoeddus, mae'n sicrhau safbwyntiau amrywiol a phenderfyniadau mwy gwybodus am wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, yn lleol ac yn genedlaethol.

Roedd cefnogaeth gref iawn i gadw'r Amcan hwn. Mae gwaith dros y pedair blynedd ddiwethaf i gyflawni'r Amcan blaenorol wedi canolbwyntio'n fwy ar amrywiaeth o ran y rhywiau na'r grwpiau gwarchoddedig eraill a chaiff hyn ei adlewyrchu yn yr ystadegau.

Rhwng 1 Ebrill 2012 ac 1 Ebrill 2015 mae cynrychiolaeth o blith menywod ar fyrddau cyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru sy'n gyrrff cyngori a reoleiddir wedi cynyddu o 32% i 47% ac ar fyrddau cyrff gweithredol o 35% i 38%.

Mae angen cynnal ymdrechion i weithio tuag at gydbwysedd rhwng y rhywiau i sicrhau bod y cynnydd hwn yn parhau a'i fod yn systematig. Fodd bynnag, bydd yr Amcan hwn yn canolbwyntio hefyd ar ymestyn y gwelliannau i grwpiau gwarchoddedig eraill, yn enwedig pobl anabl a phobl o leiafrifoedd ethnig a dangynrychiolir yn sylweddol ar gyrrff cyhoeddus.

Yn y meysydd hyn y mae angen gwaith a ffocws pellach dros oes yr Amcan hwn ochr yn ochr â chynnal y momentwm ar gynyddu amrywiaeth o ran y rhywiau mewn penodiadau cyhoeddus.

Adroddiad A Yw Cymru'n Decach?

Ychydig o gynnydd a fu yn amrywiaeth pobl sy'n cyfranogi mewn bywyd sifil, gwleidyddol a chyhoeddus. Her y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yw gwella cyfranogiad gwleidyddol a sifil a chynyddu amrywiaeth mewn bywyd cyhoeddus. Mae hanfod yr her hon wedi cael ei gyfleu yn yr amcan newydd.

Amcan 6

Cryfhau cydlyniant cymunedol trwy feithrin perthnasoedd da, cynhwysiant, parch a dealltwriaeth o fewn a rhwng cymunedau ledled Cymru.

Rhesymeg

Mae hwn yn Amcan newydd. Mae'r cyni a diwygio lles yn dal i gael effaith anffafriol ar ein cymunedau. Mewn cyfnod pan fo mwy o galedi, gall safbwyntiau negyddol a stereoteipiau ymwreiddio mewn perthynas â phobl neu gymunedau penodol. Mae'r stereoteipiau negyddol hyn yn aml yn cael effaith anghymesur ar gymunedau mwy difreintiedig.

Er y bu llawer o waith cadarnhaol ar gydlyniant cymunedol dros y pedair blynedd ddiwethaf, mae wedi bod yn cael ei wneud ochr yn ochr â'r Amcanion Cydraddoldeb presennol. Roedd cefnogaeth aruthrol ymhlith ein rhanddeiliaid i ddod â'r gwaith ar gydlyniant cymunedol dan ymbarél yr Amcanion Cydraddoldeb.

Mae cymunedau cydlynus yn gwerthfawrogi'r amrywiaeth o ran cefndiroedd ac amgylchiadau pobl ac yn cynorthwyo pobl o wahanol gefndiroedd i gael cyfleoedd tebyg mewn bywyd.

Bydd yr Amcan hwn yn canolbwyntio ar gynyddu ymwybyddiaeth, dealltwriaeth ac ymgysylltiad ar draws grwpiau gwarchodedig yn enwedig Sipsiwn a Theithwyr, ceiswyr lloches, ffoaduriaid ac ymfudwyr.

Adroddiad A Yw Cymru'n Decach?

Mae'r Amcan hwn yn cysylltu'n fras â dileu achosion o drais, cam-drin ac aflonyddu yn y gymuned. Ni fydd cymuned sy'n gydlynus yn goddef achosion o aflonyddu ar ei haelodau neu o'u cam-drin yn seiliedig ar gefndir neu nodwedd warchodedig unigolyn.

Amcan 7

Lleihau tlodi, lliniaru effeithiau tlodi a gwella amodau byw ar gyfer y grwpiau hynny sydd fwyaf mewn perygl o fyw mewn aelwydydd ar incwm isel, yn enwedig pobl anabl, rhieni sengl, rhai grwpiau ethnig lleiafrifol penodol, a theuluoedd â phlant anabl.

Rhesymeg

Mae hwn yn Amcan newydd. Roedd adborth o'n gwaith ymgynghori ac ymgysylltu'n dynodi y dylai fod cyswllt mwy pendant rhwng yr Amcanion Cydraddoldeb a'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, yn enwedig y nod i greu Cymru sy'n fwy cyfartal, sy'n cynnwys cefndir economaidd-gymdeithasol ac amgylchiadau pobl. Er bod yr holl Amcanion yn cynnwys cyswllt cryf ag anfantais economaidd-gymdeithasol, gan fod tystiolaeth yn dangos bod pobl â rhai nodweddion gwarchoddedig penodol yn fwy tebygol o fod yn byw mewn tlodi, mae'r Amcan hwn yn canolbwyntio'n benodol ar dlodi ac anghydraddoldeb ar sail nodweddion gwarchoddedig.

Adroddiad A Yw Cymru'n Decach?

Mae'r Amcan hwn yn cynnwys her lleihau tlodi yn enwedig ymhlith plant, pobl anabl a phobl o leiafrifoedd ethnig; gwella amodau byw; a lleihau digartrefedd yn enwedig i bobl sy'n ffoi rhag cam-drin domestig a phobl ag iechyd meddwl gwael neu anabledau dysgu.

Canfu'r adroddiad na fu unrhyw ostyngiad mewn anghydraddoldeb o ran amodau byw. Mae tlodi'n dal i effeithio'n anghymesur ar rai pobl ac er bod digartrefedd wedi gostwng, mae rhai grwpiau o bobl yn fwy tebygol o fod yn ddigartref nag eraill.

Amcan 8

Bydd Llywodraeth Cymru yn anelu at fod yn enghraifft batrymol yn yr agenda Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant erbyn 2020.

Rhesymeg

Mae hwn yn Amcan mewnol i Lywodraeth Cymru, sy'n dangos yr ymrwymiad i sicrhau bod Gwasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru yn darparu amgylchedd teg a chynhwysol, lle mae pawb yn cael y cyfle i fod y bobl y maent am fod a gwireddu eu potensial.

Adroddiad A Yw Cymru'n Decach?

Yn unol â'r her i roi anogaeth ar gyfer recriwtio, datblygu a gwobrwyo teg ym maes cyflogaeth, mae Llywodraeth Cymru yn anelu at fod yn gyflogwr da, gan hybu cyfle cyfartal, a chan werthfawrogi unigoliaeth ac amrywiaeth.